Arddangosfa addysg uwch Gorllewin Cymru 2018

# Pecyn gwybodaeth i ymwelwyr

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Campws Caerfyrddin
Caerfyrddin
SA31 3EP



# Cynnwys

A ..... 3
Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd ..... 3
Cyrraedd ..... 3
C ..... 3
Bysiau ..... 3
Ceir ..... 3
Bwyd a diod ..... 3
Peiriannau arian parod ..... 3
D ..... 4
Cyfarwyddiadau ..... 4
E ..... 4
Trefniadau mewn argyfwng ..... 4
Llysgenhadon y Digwyddiad ..... 4
F ..... 4
Cymorth cyntaf ..... 4
I ..... 5
Yswiriant ..... 5
Rhyngrwyd ..... 5
L ..... 5
Eiddo coll ..... 5
O ..... 5
Trefnwyr ..... 5
P ..... 6
Parcio ..... 6
R ..... 6
Asesu risg ..... 6
S ..... 6
Diogelwch ..... 6
Seminarau ..... 6
Ysmygu ..... 6

UCAS

## A

### Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd

Os bydd ymwelydd mewn damwain, neu bron â chael damwain, dylai fynd at y ddesg groeso ar unwaith i roi gwybod i un o staff yr arddangosfa. Byddwch yn cael cyngor priodol.

### Cyrraedd

Pan fyddwch chi'n cyrraedd campws, bydd y myfyrwyr-lysgenhadon a'r staff yn eich croesawu wrth y bws, ac yn eich cyfeirio at y ganolfan chwaraeon a'r man cofrestru. Os byddwch chi'n cyrraedd mewn car neu ar droed, dewch i brif fynedfa'r ganolfan chwaraeon, lle bydd ein staff a'n myfyrwyr-lysgenhadon yn barod i'ch croesawu.

## C

### Bysiau

Dylai bysiau ddod i'r campws drwy'r brif fynedfa. Bydd safle bws ar waelod y prif faes parcio i ollwng ymwelwyr. Bydd y myfyrwyr-lysgenhadon wrth law i ddangos i'r ymwelwyr lle mae'r neuadd arddangos. Bydd rhywfaint o lefydd parcio i fysiau ar y campws. Gwnewch yn siŵr eich bod yn argraffu'r tocyn yng nghefn y ddogfen hon ac yn ei ddangos yn ffenestr flaen y cerbyd.

### Ceir

Gall unrhyw ymwelwyr sy'n cyrraedd mewn car barcio ar y campws. Bydd stiwardiaid yn eich cyfeirio at le addas. Caiff ymwelwyr barcio am ddim – gwnewch yn siŵr eich bod yn argraffu'r tocyn i ymwelwyr yng nghefn y ddogfen hon ac yn ei ddangos yn ffenestr flaen y cerbyd. Oherwydd maint y digwyddiad, dim ond hyn a hyn o lefydd fydd ar y campws.

### Bwyd a diod

Gallwch brynu bwyd a byrbrydau ym Mwyty Myrddin, Canolfan yr Halliwell. Bydd modd i chi brynu cacennau, paninis, brechdanau a choffi Starbucks yn y Cwad yn yr Hen Goleg. Bydd stondin fach yn gwerthu diodydd a byrbrydau yn y neuadd arddangos.

Bydd te a choffi ar gael i athrawon yn Lolfa'r Athrawon.

### Peiriannau arian parod

Mae peiriant arian parod yn Undeb y Myfyrwyr, a chodir £1.00 am dynnu arian ohono.

# D

## Cyfarwyddiadau

**Car**
Mae'r campws ar gyrion tref Caerfyrddin, ger Tre Ioan. Gallwch weld manylion ynghylch sut mae cyrraedd y campws o wahanol gyfeiriadau ar ein gwefan: www.uwtsd.ac.uk/cy/caerfyrddin/teithio-i-gaerfyrddin/

Mae'r ganolfan chwaraeon ar yr ochr chwith wrth ddod i mewn i'r campws – cadwch olwg am y to mawr gwyrdd.

**Trên**
Mae prif orsaf reilffordd yng nghanol Caerfyrddin, oddeutu 2.6 milltir o'r campws. Mae safle tacsis wrth ymyl yr orsaf.

# E

## Trefniadau mewn argyfwng

Nid oes ymarferion tân wedi'u trefnu ar gyfer y diwrnod. Os clywch y larwm, rhaid i chi adael drwy'r allanfa agosaf ar unwaith a mynd i'r man ymgynnull. Peidiwch ag aros i gasglu eiddo personol. Cymerwch amser i ymgyfarwyddo â'r mannau ymadael cyn i'r digwyddiad ddechrau.

Pwynt A7 yw'r man ymgynnull tân – mae wrth ymyl yr ardal bicnic, i'r dde o'r brif fynedfa wrth i chi gerdded i mewn i'r adeilad.

## Llysgenhadon y Digwyddiad

Os bydd gennych gwestiynau cyffredinol i'w gofyn yn ystod y digwyddiad (e.e. sut i gael hyd i'r toiledau), gofynnwch i unrhyw un o lysgenhadon y digwyddiad a fydd yn gwisgo crysau-t coch UCAS.

# F

## Cymorth cyntaf

Bydd staff Ambiwlans Sant Ioan yn bresennol yn ystod oriau agor y digwyddiad i ddelio ag unrhyw argyfyngau. Gallwch fynd yn syth atyn nhw neu at y ddesg groeso i gael cymorth.

## I

### Yswiriant

Mae gan y trefnydd yswiriant atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus priodol. Mae copi o'r dystysgrif yng nghefn y pecyn hwn.

Er bod y trefnydd yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo ymwelwyr pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal, nid yw'n gyfrifol am unrhyw golledion na difrod. Dylai arweinwyr y grwpiau wneud yn siŵr bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

### Rhyngrwyd

Gall ymwelwyr ddefnyddio'u cyfrif eduroam i fynd ar y rhyngrwyd. Bydd codau WiFi i ymwelwyr ar gael i athrawon. Gallwch gasglu cod o'r ddesg groeso. Ni allwn roi cod WiFi i ymwelwyr i neb o dan 18 oed.

## L

### Eiddo coll

Os byddwch yn dod o hyd i eiddo coll, dylech fynd ag ef i'r ddesg groeso ym mhrif dderbynfa'r neuadd chwaraeon, lle bydd yn cael ei gadw am chwe mis gan y brifysgol. Ar ôl chwe mis, bydd y brifysgol yn cymryd na fydd unrhyw un yn dod i hawlio'r eiddo ac felly bydd yn cael yr hawl i werthu'r eiddo hwnnw.

## O

### Trefnwyr

Bydd desg groeso wrth brif fynedfa'r neuadd arddangos. Bydd aelod o'r tîm arddangos yn yr ardal hon drwy gydol y dydd.

## P

### Parcio

Mae nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gyfer ymwelwyr. Bydd staff ar y campws drwy'r dydd i'ch cyfeirio at y mannau parcio agosaf. Mae llefydd parcio i bobl anabl y tu allan i'r ganolfan chwaraeon. Gwnewch yn siŵr eich bod yn argraffu'r tocyn i ymwelwyr yng nghefn y ddogfen hon, neu'n casglu tocyn parcio o'r ddesg groeso, ac yn ei ddangos yn ffenestr flaen y cerbyd.

## R

### Asesu risg

Mae'r trefnydd wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y digwyddiad. Mae copi ohono yng nghefn y pecyn hwn.

## S

### Diogelwch

Mae porthorion ar ddyletswydd yn y brif dderbynfa 24 awr y dydd. Dylai unrhyw ymwelwyr sydd angen cymorth gysylltu â'r porthor neu ddod i'r ddesg groeso yn y neuadd chwaraeon, lle bydd trefnwyr y digwyddiad.

### Seminarau

Bydd seminarau'n cael eu cynnal drwy gydol yr arddangosfa ac mae modd gweld yr amserlen seminarau ar dudalen we'r digwyddiad.

### Ysmygu

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ni chaniateir ysmygu o fewn deg metr i unrhyw adeilad. Ni chaniateir ysmygu mewn unrhyw adeilad chwaith.

# Asesiad risg i drefnwyr digwyddiadau UCAS

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad asesu: 20/01/17 | Asesydd: Melanie Jones | Ei fonitro gan: Rebecca Jones |
| | Llofnod: M. J. Jones | R. Jones |
| Digwyddiad: Gorllewin Cymru | Teitl: Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau Gweithredol | |
| | Sefydliad: UWTSD | |

| | |
|---|---|
| Lleoliad: Canolfan Chwaraeon UWTSD | Dyddiadau cynhwysol presenoldeb ar y safle: |

| | |
|---|---|
| Allwedd i'r canlyniad gwaethaf (A): | **4 = Uchel** – yn sicr o achosi marwolaeth<br>**3 = Canolig** – yn debygol o achosi anaf difrifol<br>**2 = Isel** – yn bosibl iddo achosi anaf cymorth cyntaf<br>**1 = Isel iawn** – yn annhebygol o achosi anaf / difrod |

| | |
|---|---|
| Allwedd i'r sgôr tebygolrwydd (B): | 4 = Tebygolrwydd<br>3 = Posibilrwydd<br>2 = Annhebygol<br>1 = Posibilrwydd lleiaf un |

| | |
|---|---|
| Allwedd i'r lefel risg: | 12 – 16 = risg uchel<br>6 – 9 = risg ganolig – uchel<br>3 – 4 = risg isel – canolig<br>1 – 2 = risg isel |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Lefel risg (AxB) | Mesurau rheoli |
| Stondinau / neuadd y digwyddiad yn rhy orlawn | Cyhoedd ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **6** | ▪ Gwnaed y cynllun llawr i gael eiliau mor llydan â phosibl (o leiaf 2.5 metr o led) i osgoi gorlenwi.<br>▪ Lle digonol o gwmpas stondinau ac ardaloedd arddangos, gyda'r rheolwyr llawr a'r trefnwyr yn monitro hyn.<br>▪ Arddangoswyr i sicrhau bod staff sydd yng ngofal y stondinau yn cadw o fewn eu stondin rhag achosi tagfeydd yn yr eiliau.<br>▪ Y trefnwyr i ategu hyn gydag unrhyw arddangoswr y tybir ei fod yn rhyngweithio y tu allan i ofod y stondin a ddyrannwyd iddo.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau bod pobl yn cyrraedd yn unol â chapasiti'r lleoliad, gan fonitro pobl sy'n cyrraedd gyda help gan y lleoliad, i atal gorlenwi. Gellid hefyd ddefnyddio amseroedd cyrraedd i fysys os yn briodol.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau staff digonol, i ddelio â llif ymwelwyr drwy'r lleoliad. Yr holl staff i fod yn hawdd eu hadnabod.<br>▪ Trefnwyr i fonitro'r ardal arddangos.<br>▪ Arddangoswyr i hysbysu'r trefnwyr os yw eu stondin, neu'r ardal yn union y tu allan i'w stondin yn mynd yn orlawn.<br>▪ Pawb i lynu wrth y cyfarwyddiadau a rodda'r trefnydd, staff y lleoliad neu'r isgontractwyr a ddefnyddir, i helpu i reoli llifoedd traffig a cherddwyr. |
| Tân | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **12** | ▪ Cadw allanfeydd tân yn glir.<br>▪ Offer diffodd tân i fod ar gael yn y lleoliad.<br>▪ Sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei gasglu a'i storio'n gywir.<br>▪ Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl wastraff a'r deunydd gwastraff fflamadwy yn cael ei symud o ardal stondinau.<br>▪ Bydd arddangoswyr yn defnyddio mannau ysmygu dynodedig. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Mesurau rheoli |
| Gwagio | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Lleoliad i sicrhau bod y systemau atal, canfod a rhybuddio am dân yn ddigonol i'r lleoliad, ac wedi cael eu harchwilio a'u cynnal fel eu bod yn gweithio'n dda.<br>▪ Trefnwyr a'r lleoliad i sicrhau bod nifer yr allanfeydd o'r lleoliad yn ddigonol.<br>▪ Cynllun llawr i gael ei gyflwyno i'r lleoliad cyn y digwyddiad i'w gymeradwyo.<br>▪ Trefnwyr i wybod y cynllun gwagio ac wedi egluro'r cynllun wrth fyfyrwyr sy'n cynorthwyo, arddangoswyr a chontractwyr.<br>▪ Trefnwyr i roi i gontractwyr, arddangoswyr ac ymwelwyr ddogfennau perthnasol am y drefn wagio, gan gynnwys y man ymgynnull mewn tân.<br>▪ Arddangoswyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r allanfa frys agosaf a chadw'r holl allanfeydd yn glir bob amser.<br>▪ Contractwyr, arddangoswyr ac ymwelwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r drefn wagio, eu bod yn darllen yr holl ddogfennau perthnasol a ddarparwyd, ac yn dilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddwyd os oes angen gwagio.<br>▪ Sicrhau bod pob tramwyfa ac allanfa frys yn glir.<br>▪ Pob allanfa frys wedi'i chadw'n glir gydol y digwyddiad.<br>▪ Ni ddylai arddangoswyr rwystro eiliau na mannau cyhoeddus, gan gynnwys yn ystod adegau codi'r stondin a'i thynnu i lawr, a sicrhau bod arddangosiadau'r stondinau yn cadw o fewn y gofod a ddyrannwyd i'r stondin.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau bod modd clywed y system sain yn glir ym mhob ardal gyhoeddus, lle bo modd.<br>▪ Os nad oes modd clywed unrhyw gyhoeddiadau gwagio dros y sŵn amgylchol, yna rhaid i'r staff diogelwch fynd i mewn i'r neuaddau i wagio'r lle. |
| Llithro / baglu a chwympo | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr | 4<br>3 | 4<br>3 | **9** | ▪ Dylai arddangoswyr sicrhau bod yr holl focsys wedi'u pentyrru'n briodol o fewn y gofod a ddyrannwyd i'r stondin.<br>▪ UCAS i atgoffa arddangoswyr mewn e-bost o Delerau ac Amodau'r Arddangoswyr, gan bwysleisio y dylai arddangoswyr gadw eu harddangosiadau o fewn y stondin a ddyrannwyd iddynt.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau bod stondinau'r holl arddangoswyr yn briodol a ddim yn achosi perygl baglu, cyn i'r digwyddiad agor.<br>▪ Dylai'r arddangoswyr ofyn i staff y digwyddiad fynd â bocsys sy'n wag, sydd wedi'u gwasgu'n fflat ac |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | sy'n cynorthwyo | 2 | 2 | | sydd wedi torri o'u stondin.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod bocsys gwag yn cael eu clirio o'r stondin, gyda help y myfyrwyr sy'n cynorthwyo.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau nad oes dim ceblau'n llusgo yn ardal y stondin, nac yn yr eiliau cyfagos.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod eiddo personol yn cael ei roi o'r neilltu'n briodol.<br>▪ Trefnwyr ac arddangoswyr i sicrhau bod unrhyw wastraff arall yn cael ei storio a'i symud yn ddiogel.<br>▪ Dylai arddangoswyr sicrhau nad ydynt yn tynnu unrhyw ran o'u stondin i lawr nes bod yr holl ymwelwyr wedi gadael yr ardal arddangos a nes i'r trefnwyr ddweud y cânt ddechrau tynnu'r stondin i lawr. |
| | | 1 | 1 | | |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso’r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl |
| Gweithio ar uchder | Arddangoswyr, contractwyr, staff y lleoliad ac UCAS | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Ni chaniateir i’r adeiladwaith fod dros 4m.<br>▪ Yr holl waith i gael ei wneud oddi ar offer cynnal sad – naill ai ysgol neu sgaffaldiau – gydag arwyddion rhybuddio a rhwystrau addas fel bo angen.<br>▪ Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl staff y mae gofyn iddynt weithio ar uchder wedi cael hyfforddiant addas.<br>▪ Rhaid gwisgo esgidiau a dillad gwarchodol personol addas. |
| Stondinau yn syrthio drosodd | Cyhoedd ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **6** | ▪ Yr holl arddangoswyr i sicrhau bod eu stondinau’n sownd ac yn ddiogel, gan ddweud wrth y trefnydd am unrhyw broblemau.<br>▪ Unrhyw arddangoswyr gyda stondinau cymhleth i gyflwyno eu hasesiad risg eu hunain i Ddigwyddiadau UCAS.<br>▪ Bydd y trefnwyr yn gofyn i unrhyw stondin y credir ei fod yn anniogel gael ei dynnu i lawr, neu byddant yn gweithio gyda’r arddangoswyr i ddiogelu’r stondin. |
| Adeiladwaith arbennig: platfformau/pebyll mawr ayb. | Arddangoswyr a staff y lleoliad | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Rhaid i gynlluniau ar gyfer adeiladwaith arbennig gael eu cyflwyno a’u harchwilio gan y lleoliad chwe wythnos cyn y digwyddiad.<br>▪ Ni chaniateir i’r adeiladwaith fod dros 4m. |
| Offer codi (FLTs, craeniau ayb.)<br>Offer pŵer a ffynonellau gwres | Contractwyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Dim ond y contractwr cymwysedig a benodwyd gan y lleoliad neu’r trefnydd sydd i ddefnyddio’r offer codi.<br>▪ Mae gan yr offer pŵer a ddefnyddia contractwyr geblau llusgo o’r hyd a ganiateir a gwarchodaeth, yn fecanyddol ac yn weledol, rhag difrod. Ni fydd offer o’r fath byth yn cael ei adael heb neb i gadw llygad arno gyda’r cyflenwad trydan arnodd.<br>▪ Defnyddir goleuadau rhybudd neu arwyddion priodol, pan fo angen. |
| Cyfleusterau arlwyo (symudol a | Arddangoswyr, contractwyr | 4<br>3 | 4<br>3 | **6** | ▪ Y lleoliad sy’n darparu’r holl gyfleusterau arlwyo a’r staff, ac mae felly dan ofal y lleoliad.<br>▪ Unedau gwerthu hysbys ac sydd ag enw da yn unig.<br>▪ Rheoliadau hylendid i gael eu dilyn yn fanwl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| sefydlog) | , ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 2 | 2 | | ▪ Cwmni arlwyo i gyflogi staff addas a hyfforddedig. Staff arlwyo i sicrhau eu bod yn glanhau unrhyw beth sy'n colli ar unwaith. |
| | | 1 | 1 | | |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl |
| Amrywiol gontractwyr ac arddangoswyr ar y safle | Contractwyr ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **6** | ▪ Arddangoswyr i gytuno ar asesiad risg fel rhan o'u harcheb, a rhoi gwybodaeth ychwanegol lle bo'n briodol.<br>▪ Dim ond contractwyr profiadol, dibynadwy a chymeradwy a ddefnyddir.<br>▪ Trefnwyr i gael eu hysbysu o unrhyw beryglon penodol sy'n codi cyn ac yn ystod yr arddangosfa.<br>▪ Archwiliadau sylfaenol wedi'u gwneud ar asesiadau risg contractwyr ac arddangoswyr.<br>▪ Y cwmni sy'n eu cyflogi sy'n benodol gyfrifol am gontractwyr, h.y. yr arddangoswr.<br>▪ Mae arddangoswyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu contractwyr yn defnyddio offer priodol, ac yn gymwys i wneud hynny.<br>▪ Dau yw'r amcangyfrif o nifer staff y contractwyr.<br>▪ Rhai i arddangoswyr a chontractwyr sydd eisiau gweithio'n hwyr ofyn caniatâd y trefnydd cyn y digwyddiad, er mwyn gallu trefnu diogelwch, cymorth cyntaf, trydan a goleuadau ar gyfer y neuaddau neu'r stondinau penodol.<br>▪ Rhaid i bob cwmni contractio fod â chymhorthydd cyntaf cymwysedig ymysg ei staff, hefyd ar gyfer criw sy'n aros yn hwyr. Rhaid i'r contractor hefyd roi enw'r sawl sydd mewn gofal ynghyd â rhif cysylltu.<br>▪ Ni chaniateir balŵns heliwm yn y lleoliad. |
| Trydan: cysylltiadau a phŵer i stondinau ayb. | Arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Arddangoswyr i ond defnyddio socedi/cyflenwadau trydan a gyflenwir gan drefnwyr y digwyddiad, neu'r rheini a gyflenwyd gan isgontractwyr a benodwyd gan y trefnydd.<br>▪ Bydd contractwr penodedig y trefnydd hefyd yn gosod cyflenwadau pŵer ar bob stondin, lle bo angen. Ni chaniateir i arddangoswyr wneud eu gwaith weirio eu hunain, oherwydd y potensial i systemau is na'r safon a pheryglus gael eu hegnioli.<br>▪ Yr arddangoswyr i sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac at y diben.<br>▪ Dylai arddangoswyr sicrhau nad oes dim socedi na chysylltiadau'n cael eu gorlwytho yn ardal eu stondin, ac, os nad ydynt yn sicr, dylent geisio cymeradwyaeth gan drefnydd y digwyddiad.<br>▪ Dylai'r holl gyfarpar cludadwy trydanol a ddygir i'r safle gan arddangoswyr fod â thystysgrif prawf PAT dilys.<br>▪ Sicrhau bod yr holl risgiau trydanol dan reolaeth, a bod un o aelodau staff y contractwr trydanol ar y safle bob amser.<br>▪ Dim ond contractwyr profiadol, dibynadwy a chymeradwy i gael eu defnyddio.<br>Rhaid i bob archeb am drydan gael ei rhoi cyn y dyddiad cau, lle bo'n berthnasol. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso’r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl |
| Codi a thynnu i lawr | Arddangoswyr, contractwyr, staff y lleoliad ac UCAS | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Cyfnod gosod o ddwy awr fan leiaf i arddangoswyr, a mynediad diwrnod llawn i gontractwyr.<br>▪ Unigolion awdurdodedig yn unig a ganiateir yn y lleoliad i godi’r stondin a’i thynnu i lawr. Ni chaniateir plant dan 18 ar y safle yn ystod yr amser a geir i godi’r stondin a’i thynnu i lawr.<br>▪ Ni chaniateir dim cerbydau yn y man arddangos yn ystod oriau agor. Gellir caniatáu cerbydau ar y safle wrth godi’r stondin a’i thynnu i lawr gyda chaniatâd y trefnydd.<br>▪ Pawb i fod yn ymwybodol o beryglon posibl pan fo contractwyr yn symud o amgylch y safle, gan gynnwys defnyddio wagenni fforch-godi a cherbydau cyflenwadau.<br>▪ Rhaid i arddangoswyr wisgo bandiau ar eu harddwrn er mwyn iddynt gael mynd i mewn cyn i’r digwyddiad agor i’r cyhoedd. Rhaid monitro’r holl gontractwyr ar y safle, o ran y tasgau a wneir, a rhaid gwisgo offer gwarchodol personol addas pan fo angen.<br>▪ Trefnwyr i reoli mynediad i ardaloedd lle mae gwaith adeiladu a chodi mawr yn mynd rhagddo.<br>▪ Staff diogelwch i wisgo offer gwarchodol personol dim ond os yw’r trefnydd yn mynnu, a chynorthwyo’r rheolwyr llawr gyda’r polisi ynglŷn ag offer gwarchodol personol os oes angen. |
| Parcio ceir yn ystod yr arddangosfa | Ymwelwyr ac arddangoswyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **4** | ▪ Y trefniadau ar gyfer parcio i arddangoswyr ac ymwelwyr a gwybodaeth am y man llwytho i gael eu cyflwyno ymlaen llaw.<br>▪ Marsialiaid traffig i gael eu defnyddio i reoli llif y traffig ar y safle.<br>▪ Rhaid cyflwyno manylion cysylltu’r lleoliad ymlaen llaw, ynghyd â thocynnau parcio, os yn berthnasol.<br>▪ Marsialiaid traffig yn eu lle yn y maes parcio / mannau dadlwytho.<br>▪ Rhaid cymryd gofal wrth yrru i’r lleoliad ac oddi yno.<br>▪ Glynu wrth y cyfyngiadau cyflymder ac arferion gyrru da: ‘dim ffonau symudol wrth yrru’ a ‘diffodd cyn cychwyn’. |
| Codi a chario | Arddangoswyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Arddangoswyr i sicrhau bod yr holl staff ar eu stondin wedi cael hyfforddiant mewn sut i godi a chario’n gywir.<br>▪ Dogfen codi a chario i gael ei chynnwys yn y pecynnau i arddangoswyr a myfyrwyr sy’n cynorthwyo.<br>▪ Pawb i wisgo esgidiau addas.<br>▪ Glanhawyr i gadw golwg am hylif sydd wedi colli a’i lanhau. Gosod arwyddion perygl ar unwaith ar unrhyw loriau gwlyb. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl |
| Cyfeirio ymwelwyr | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **9** | ▪ Ymwelwyr i ddod i mewn i'r lleoliad drwy'r brif fynedfa flaen yn ystod y digwyddiad.<br>▪ Pob gwybodaeth berthnasol i gael ei rhoi yn yr arweiniad i'r arddangosfa – gan gynnwys cymorth cyntaf, arlwyo, ayb.<br>▪ Defnyddio'r cynllun llawr i dynnu sylw at y prif ardaloedd o ddiddordeb er mwyn helpu pobl i symud o amgylch y lleoliad, megis lleoliadau stondinau arddangoswyr, mynedfeydd ac allanfeydd, man cymorth cyntaf, swyddfa'r trefnydd, ystafelloedd seminarau, lluniaeth.<br>▪ Cynghorir pob stondin i ddarparu mynediad i bobl anabl, drwy'r llawlyfr i arddangoswyr ac archwiliadau o'r stondin.<br>▪ Trefnwyr a stiwardiaid i fonitro gwesteion anabl am rwyddineb symudiad o amgylch y lleoliad.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau y ceir mynedfeydd/allanfeydd i'r anabl yn y lleoliad.<br>▪ Gorfodir pob cyfyngiad uchder yn llym fel bod modd gweld arwyddion a baneri'n glir.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau bod staff priodol yn eu lle i ddarparu amgylchedd diogel a reolir i arddangoswyr, staff ac ymwelwyr.<br>▪ Ni chaniateir defnyddio troliau ar lawr y neuadd arddangos i symud deunyddiau pan fydd yr arddangosfa ar agor.<br>▪ Marsialiaid diogelwch i fod ar waith i fonitro llif traffig a cherddwyr yn y lleoliad. |
| Ystafelloedd seminarau | Ymwelwyr a siaradwyr | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | **1** | ▪ Ni chaniateir pellter o fwy na 12 metr at unrhyw allanfa argyfwng yn yr ystafelloedd seminarau.<br>▪ Pob allanfa argyfwng i fod ag arwydd allanfa argyfwng wedi'i oleuo uwchben y drws.<br>▪ Rhaid rhwymo pob cebl yn ddiogel rhag bod pobl yn baglu.<br>▪ Rhaid i stondinau uwch-seinyddion beidio ag ymwthio i'r eiliau.<br>▪ Rhaid cadw'r sŵn i lefel resymol.<br>▪ Rhaid clipio rhesi seddi wrth ei gilydd, neu ddefnyddio meinciau.<br>▪ Gwnaed arweiniad seddi i'r seminarau i helpu'r trefnwyr a'r staff technegol i drefnu cynllun yr ystafell yn ddiogel, gan gynnwys lled diogel ar gyfer yr eiliau ayb. |
| Rheolaethau alcohol / sylweddau | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y | 4<br>3<br>2 | 4<br>3<br>2 | **1** | ▪ Ni chaniateir alcohol/sylweddau yn y lleoliad. Hysbysir lleoliadau â chyfleusterau bar o hyn yn glir cyn y digwyddiad.<br>▪ Y lleoliad sy'n gyfrifol am yr archwiliadau perthnasol, os oes angen.<br>▪ Os gwelir bod gan rywun gyffuriau a reolir (Dosbarth A, B neu C) yn ei feddiant, neu os gwelir bod rhywun dan ddylanwad cyffuriau o'r fath, caiff yr heddlu eu hysbysu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 1 | 1 | | ▪ Gofynnir i unrhyw droseddwyr adael y digwyddiad. |

| Gweithgaredd | Pwy sydd dan sylw | Gwerthuso'r risgiau | | | Rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl | Canlyniad gwaethaf (A) | Sgôr tebygolrwydd (B) | Perygl a welwyd | Unigolyn/ unigolion mewn perygl |
| Peryglon ac anafiadau o ymddygiad negyddol a phositif os nad yw'r staff yn dilyn rheolau, a gofynion asesiadau risg ar gyfer y peryglon a'r risgiau uchod.<br><br>Dyma'r prif rai:<br><br>a) Offer gwarchodol personol<br>b) Codi a chario<br>c) Offer gwaith a thrydan<br>d) cemegion<br>e) llithro, baglu, cwympo<br>f) gweithio ar uchder<br>g) trefn mewn argyfwng | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy'n cynorthwyo | 4<br>3<br>2<br>1 | 4<br>3<br>2<br>1 | 9 | Mae polisïau, gweithdrefnau a rheolau'r cwmni yn berthnasol ym mhob achos.<br><br>**a)** Hyfforddiant ar offer gwarchodol personol ar gyfer pob math o offer o'r fath, ac ar ofal croen:<br>Wedi briffio'r staff ynglŷn â gofynion yr asesiad risg<br>Offer gwarchodol personol fel y nodir yn yr asesiad risg<br>**b)** Hyfforddiant codi a chario wedi'i ddarparu:<br>Hyfforddiant ar offer codi a chario mecanyddol wedi'i ddarparu<br>Wedi briffio'r staff ynglŷn â gofynion yr asesiad risg<br>Cymhwysedd y staff a goruchwyliaeth<br>Wedi briffio'r staff ynglŷn â gofynion yr asesiad risg<br>Cymhwysedd y staff a goruchwyliaeth<br>**c)** Offer gwaith a thrydan:<br>Hyfforddiant ar offer gwaith i'r staff.<br>Archwiliadau cyn shifft ac archwiliadau statudol wedi'u gwneud, gan sicrhau eu bod wedi'u gweithredu<br>**d)** Cemegau - Wedi briffio'r staff ynglŷn â gofynion yr asesiad risg COSHH.<br>MSDS ac arweiniad i gynhyrchion ar gael<br>Cymhwysedd y staff a goruchwyliaeth.<br>System storio, casglu a gwaredu gwastraff ar waith<br>**e)** Llithro, baglu, cwympo: Wedi briffio'r staff ynglŷn â gofynion yr asesiad risg<br>ceblau a pheryglon baglu dan reolaeth.<br>Cymhwysedd y staff a goruchwyliaeth.<br>**f)** Gweithio ar uchder: hyfforddiant a chymhwysedd.<br>**g)** Trefn mewn argyfwng: hyfforddiant staff yn y drefn mewn argyfwng ac iechyd a diogelwch. Larymau clywadwy a gweladwy addas i'r perygl ac yn cael eu profi'n rheolaidd. |
| Salwch neu anaf | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, | 4<br>3<br>2 | 4<br>3<br>2 | 9 | ▪ Rhaid cysylltu ag un o aelodau digwyddiadau'r lleoliad os oes angen cymorth cyntaf. Rhaid i aelod o staff digwyddiadau a/neu staff diogelwch fod yn y lleoliad bob amser.<br>▪ Sicrhau bod arddangoswyr a myfyrwyr sy'n cynorthwyo yn gwybod lle mae'r man cymorth cyntaf, a'i fod i'w weld ar y cynllun llawr yn yr Arweiniad i'r Arddangosfa.<br>▪ Trefnwyr i sicrhau bod staff cymwysedig yn y man cymorth cyntaf.<br>▪ Trefnydd UCAS i gael hyfforddiant cymorth cyntaf. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | staff y trefnwyr, myfyrwyr sy’n cynorthwyo | 1 | 1 | | ▪ Monitro tymheredd yr ystafell gydol y digwyddiad er mwyn sicrhau lefelau priodol. |
| Sefyllfa o argyfwng | Arddangoswyr, contractwyr, ymwelwyr, staff y lleoliad, staff y trefnwyr, myfyrwyr sy’n cynorthwyo (Tua 3000+) | 1<br>2<br>3<br>4 | 1<br>2<br>3<br>4 | **16** | Trefnydd y digwyddiad i gael sesiwn friffio lawn gyda’r lleoliad cyn y digwyddiad er mwyn bod yn ymwybodol o’r drefn mewn argyfwng ac unrhyw fesurau diogelwch a roddwyd ar waith ar gyfer y digwyddiad. Trefnydd y digwyddiad i rannau’r manylion gyda’r tîm safle a’u hysbysu os ceir unrhyw newidiadau.<br><br>Trefnydd y digwyddiad i ddilyn trefn y lleoliad ar gyfer argyfwng bob amser a gweithredu i sicrhau diogelwch yr holl ymwelwyr a’r arddangoswyr, cau’r adeilad neu wagio os oes angen. Trefnydd y digwyddiad i gofnodi’r holl fanylion lle bo modd ar gofrestr ddigwyddiadau.<br>• Darparu i staff, myfyrwyr sy’n cynorthwyo ac arddangoswyr gopi o drefn wagio/trefn mewn argyfwng y lleoliad.<br>• Trefnydd digwyddiadau UCAS i hysbysu tîm rheoli digwyddiadau UCAS<br>• Gofyn i staff, myfyrwyr sy’n cynorthwyo, Arddangoswyr ac ymwelwyr fod ar eu gwyliadwriaeth bob amser ac adrodd am unrhyw beth amheus wrth swyddfa’r trefnwyr neu staff diogelwch y lleoliad.<br>• Os ceir bygythiad o fom, y lleoliad ac UCAS i ddilyn trefn y lleoliad ar gyfer argyfwng. |

Hasilwood House
60 Bishopsgate
London EC2N 4AW
Tel: 020 7847 8670
Fax: 020 7847 8689

UMAL

TO WHOM IT MAY CONCERN

15th July 2017

Dear Sir/Madam

**UNIVERSITY OF WALES, TRINITY ST DAVID TRUST**
**AND ALL ITS SUBSIDIARY COMPANIES**

We confirm that the above Institution is a Member of U.M. Association Limited, and that the following covers are currently in place:-

1. **EMPLOYERS' LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate No. | Y016458QBE0117A/029 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Limit of Indemnity | £20,000,000 any one event unlimited in the aggregate. |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Cover provided by | QBE Insurance (Europe) Limited and Excess Insurers. |

2. **PUBLIC AND PRODUCTS LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate of Entry No. | UM029/95 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Limit Of Indemnity | £50,000,000 any one event and in the aggregate in respect of Products Liability and unlimited in the aggregate in respect of Public Liability. |
| Cover provided by | U.M. Association Limited and Excess Cover Providers led by QBE Insurance (Europe) Limited |

If you have any queries in respect of the above details, please do not hesitate to contact us.

Yours faithfully

Susan Wilkinson

Susan Wilkinson
For U.M. Association Limited

ISO 9001 REGISTERED FIRM

UCAS

# Trwydded Parcio Bws

## Arddangosfa Addysg Uwch UCAS Gorllewin Cymru 2018

Dilys ar gyfer:
PCYDDS,  Campws Caerfyrddin

Dyddiad: 27/03/2018

Sicrhewch fod y trwydded wedi ei arddangos yn glir yn ffenest flaen eich cerbyd i osgoi costau parcio yn ystod eich ymweliad.

UCAS

# Trwydded Parcio Ymwelydd

## Arddangosfa Addysg Uwch UCAS Gorllewin Cymru 2018

Dilys ar gyfer:
PCYDDS,  Campws Caerfyrddin

Dyddiad: 27/03/2018

Sicrhewch fod y trwydded wedi ei arddangos yn glir yn ffenest flaen eich cerbyd i osgoi costau parcio yn ystod eich ymweliad.